| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Y CYNGOR** |
| **DYDDIAD** | **10 RHAGFYR 2009** |
| **TEITL** | **STRATEGAETH ARBEDION 2010-13** |
| **PWRPAS** | **MABWYSIADU STRATEGAETH ARBEDION AR GYFER 2010-13** |
| **AWDUR** | **PRIF WEITHREDWR** |
| **ARWEINYDD PORTFFOLIO** | **Y CYNGHORYDD DYFED EDWARDS** |

1.0 **CYD-DESTUN**

1.1 Mae'r aelodau yn ymwybodol bod sefyllfa arian cyhoeddus cenedlaethol mewn cyflwr enbydus. Gallwn fod yn sicr y bydd Cyngor Gwynedd, fel yr holl gynghorau eraill, yn dioddef o effeithiau'r cyfyngiadau gwariant. Ar hyn o bryd, ni all y Cyngor fod yn sicr ynghylch yr union ffigwr y bydd gofyn i ni ei arbed dros y saith neu wyth mlynedd nesaf. Fodd bynnag, mae'n gwbl amlwg y bydd lefel yr arbedion angenrheidiol a'r cyfnod amser y bydd gofyn eu darganfod o'i fewn yn ddigynsail.

1.2 Y wasgfa ariannol yw'r risg a'r her strategol fwyaf y bydd y Cyngor yn eu hwynebu dros y saith neu wyth mlynedd nesaf ac mae gofyn cael ymateb strategol ac arweinyddiaeth gadarn os ydym am leihau i'r eithaf y difrod posib a gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd sydd ar gael wrth i ni wynebu'r her.

1.3 Yn seiliedig ar y tybiaethau diweddaraf, bydd y bwlch yng nghyllideb y Cyngor tua £16.2m dros y tair mlynedd nesaf. Os bydd chwyddiant yn cynyddu, neu os yw ein tybiaethau am grantiau'r llywodraeth yn rhy optimistaidd, bydd y bwlch yn fwy yn y pen draw. Mae'r ffaith y bydd y targed arbedion cronnus dros saith neu wyth mlynedd yn llawer uwch yn bwysicach na hyn a dylai hyn effeithio ar y ffordd rydym yn meddwl ac yn gweithredu.

2.0 **Y BROSES HYD YN HYN**

2.1 Dros y blynyddoedd, rydym wedi ceisio bod yn fwy cynhwysol a dod â mwy o aelodau i mewn i'r broses o ddatblygu'r strategaeth yn gynharach. I'r perwyl hwn, credaf ein bod wedi gwneud camau breision eleni. Fodd bynnag, rwyf hefyd yn cydnabod y gallwn wella ymhellach yn y dyfodol.

2.2 Er gwaethaf y penderfyniadau y byddwch chi fel cynghorwyr yn eu gwneud ar y pecyn manwl yn y pen draw, hoffwn ddiolch i'r cynghorwyr, y staff, aelodau'r cyhoedd a'r sector gwirfoddol am y rhan maent wedi'i chwarae hyd yn hyn, a'u llongyfarch ar hyn o beth. Mae pawb wedi mynd i'r afael â thasg anodd a sensitif mewn modd aeddfed a chyfrifol.

## 3.0 CRYNODEB O'R ARGYMHELLION

3.1 Pe byddai'r holl argymhellion yn yr adroddiad amgaeedig yn cael eu derbyn, cyfanswm yr arbedion dros y tair blynedd o'r ymarfer cwantwm fydd £10.0m. Wrth ychwanegu hyn at y targed effeithlonrwydd ½% blynyddol, yr arbedion effeithlonrwydd trawsadrannol a'r costau llai sy'n adlewyrchu arbedion demograffig rhagamcanol mewn ysgolion – cyfanswm y pecyn arbedion yw £15.708m.

**CRYNODEB – 19/11/09**

| | 2010/11<br>£ '000 | 2011/12<br>£ '000 | 2012/13<br>£ '000 | Cyfanswm<br>£ '000 |
|---|---|---|---|---|
| 0.5% Effeithlonrwydd Ariannol | 1.087 | 1.087 | 1.087 | 3.261 |
| Cynlluniau Trawsadrannol | 0.446 | 0.618 | 0.672 | 1.736 |
| Cwantwm – Grwpiau A a B | 2.484 | 2.596 | 4.922 | 10.000 |
| Demograffeg Ysgolion Uwchradd | 0.018 | 0.230 | 0.280 | 0.528 |
| Demograffeg Ysgolion Cynradd | 0.017 | 0.002 | 0.162 | 0.181 |
| **Cyfanswm** | **4.052** | **4.533** | **7.123** | **15.708** |

3.2 Ni ddylai aelodau boeni'n ormodol fod hyn yn disgyn fymryn yn fyr o'r diffyg posib yn y gyllideb ar hyn o bryd. Y peth pwysig yw ein bod yn uchafu'r pecyn arbedion gan y bydd hyn yn rhoi ychydig o amser i ni yn y flwyddyn nesaf i ddatblygu arbedion pellach, os bydd y bwlch 3 blynedd yn fwy eto yn y pen draw.

## 4.0 YSGOLION

4.1 Mae'r argymhellion ynghylch ysgolion yn adlewyrchu nifer o ffactorau:-

- Pryder gwirioneddol ynghylch gallu ysgolion i ymdopi â gostyngiadau pellach.
- Negeseuon gan aelodau a'r cyhoedd yn y gweithdai ymgynghori.
- Y ffaith y bydd ysgolion hefyd yn gorfod wynebu arbedion yn sgil newidiadau demograffig.
- Y ffaith y bydd ysgolion hefyd yn wynebu toriadau mewn grantiau posib a ddarperir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

4.2 Dylid nodi bod y targed ½% ar gyfer arbedion effeithlonrwydd hefyd yn berthnasol i ysgolion a bydd gofyn iddynt arbed £285,000 y flwyddyn i gwrdd â'r targed hwn. Yn y flwyddyn gyntaf, bydd y baich hwn yn llai oherwydd bydd tua £220,000 o arbedion ar gael o gau tair ysgol sydd eisoes wedi'i gymeradwyo.

4.3 Ni all y toriadau cwantwm a awgrymir ar gyfer ysgolion yn 2011/12 a 2012/13 ond fod yn rhai dros dro ar hyn o bryd oherwydd os bydd y bwlch yn y gyllideb yn y pen draw yn waeth na'r disgwyl, bydd angen ailymweld â'r maes hwn.

## 5.0 <u>CASGLIADAU</u>

5.1 Mae'n bwysig fod y Cyngor yn uchafu'r swm sydd ar gael yn y strategaeth arbedion oherwydd:-

- Mae angen peth sicrwydd er mwyn mantoli cyllideb y flwyddyn nesaf.

- Mae angen cymeradwyaeth gynnar ar nifer o'r cynlluniau yn yr ail a'r drydedd flwyddyn oherwydd bod cyfnodau arweiniol hir iddynt er mwyn datblygu manylder y cynlluniau cyn y gellir eu gweithredu.

5.2 Mae'r Arweinydd a'r Uwch Arweinwyr Portffolio wedi trafod a chymeradwyo'r rhestr amgaeedig i'w hystyried. Hefyd, mae'r rhestr wedi'i hystyried gan Grŵp Busnes y Cyngor.

5.3 Dros y chwe mis nesaf, mae'n rhaid i ni ymchwilio i mewn i wahanol fesurau ar gyfer gofynion arbedion y dyfodol a hefyd sicrhau bod trefniadau yn eu lle i gyflwyno'r arbedion yn y strategaeth arbedion.